

Catchphrase 2002: Ysbyty Brynaber - Week 5

Key language

Dal i

Present/Future Short Form - Dod

New words

cogydd	chef
cwcan (SW)	to cook
meicrodon	microwave
cweir	a beating
ceir	cars
hast	hurry
sbel (SW)	a while
cwyno	to complain
yn weddol	fairly well
rhyfedd	strange
cwpla (SW)	to finish
cydymdeimlo	to sympathise
sylweddoli	to realise
rhesymol	reasonable
cosbi	to punish
llys	court
celwyddau	lies
eiliad	a second
braid yn anniben (SW)	a little untidy
pwysau	weight
dychmygu	to imagine
poeni	to worry
osgoi	to avoid
dychmygu	to imagine
rheswm	reason
amddiffyn	to defend

It is important to emphasise that the Welsh in the drama reflects everyday speech by native Welsh speakers. You might not understand every word that is spoken but it's important that you understand the main gist of what is being said. You'll be surprised how much you'll understand.

Main Grammatical Points

Here's a very useful phrase for you:

DAL I which means – still

Mae hi'n **DAL I FFWRDD** o'r gwaith
She's still off work

O HYD also means still.

You will notice that **DAL I** comes before the verb-noun and **O HYD** follows the verb-noun
Dw i'n dal i ddysgu – I'm still learning
Dw i'n dysgu o hyd – I'm still learning.

If we put **O HYD** in front of the verb-noun it means always
Dw i o hyd yn dysgu – I'm always learning

Not too confusing for you I hope.

Notice the short form of the future tense of the verb dod

Do i	I'll come
Doi di	You'll come
Daw e/hi	He/She'll come
Down ni	We'll come
Dewch chi	You'll come
Dôn nhw	They'll come

And the question forms

Ddoi di?	Will you come?	ANSWER:	Dof
Ddaw e/hi?	Will he/she come?	ANSWER:	Daw
Ddewch chi?	Will you come?	ANSWER:	Dof (singular) or Down (plural)

Ddoi di i'r parti	Will you come to the party?
Dwed y doi di	Say that you'll come

Here are some words that you'll hear starting each time with the South Wales version:

lan - i fyny - up
ma's - allan - out
cwpla – gorffen – to finish
ta beth – beth bynnag - anyway

Although we have Welsh words for 'to drive' - gyrru and hoffi you'll notice that in colloquial Welsh dreifio or dreifo in South Wales and licio and lico are commonly used.

Dw i'n dreifio i'r gwaith
Dw i'n licio dy gar newydd di

Agnes invites Arwyn, and Jenny to a bonfire night party:

noson Guto Ffowc	Guy Fawkes Night
tân gwyllt	fireworks
coelcerth	a bonfire

And finally here are some more useful words and phrases that will crop up.

ar fai	to blame
erbyn hyn	by now
wrth ein boddau	we're delighted
dro ar ôl tro	time and again

Ysbyty Brynaber: Episode 13

The accident and its implications is still affecting all at Brynaber. Dic has been discharged from hospital and nurse Wendy Keating pays him a visit.

Geirfa

cogydd	chef
cwcan (SW)	to cook
meicrodon	microwave
cweir	a beating
ceir	cars

Golygfa 1

Dic - ...Mmmm. Neis iawn...Chicken fajitas...Jest y peth i gino ar brynhawn bach oer! Dic hen foi – ti'n gogydd a hanner! O, yffach! Pwy sy 'na nawr...Helo?
Wendy - Heia. Fi sy 'ma.
Dic - Dere lan...
Wendy - ...Heia!
Dic - Hi!
Wendy - Pw! Beth yw'r stinc 'ma?
Dic - Stinc? Pa stinc?
Wendy - God! Beth yw e? Dy fwyd di...Dead snakes in peppers?
Dic - Oi! Llai o'r cheek... Wy wedi bod yn cwcan y chicken fajitas 'ma am ugain munud yn y micro-don.
Wendy - O.K. No need to get your knickers in a twist...Dim ond jocan...
Dic - A 'ta beth: ers pryd ti a'r nyrsus 'na'n cwcan lan yn yr hostel?
Wendy - Llai o'r lip, pal...
Wendy - Beth sy'?
Dic - Ti. Ti'n sefyll ar y nhroed i!
Wendy - Sori...
Dic - Hei, ti'n wlyb i gyd...
Wendy - Wy'n gwobod...Soaked right through I am...
Dic - Dy got di, edrycha...Dripan. A dy wallt di....
Wendy - Ges i nal mewn shower ar y ffordd yma...
Dic - O, do? Gyda pwy?
Wendy - Ar y street jyst nawr, you smarmy git.
Dic - Aw! Aw! Watshia! Paid!
Wendy - Ti'n gofyn am – what's that north Walian word?
Dic - North Walian word? Mae lot ohonyn nhw...Pa un?
Wendy - Ti'n gwobod...When you get done over...Dere mlaen, Dic. Help me out, man. Ti'n gwybod y gair...
Dic - Na, dw i ddim yn gwybod y gair...
Wendy - Starts with a 'c'...Weird sort of word...
Dic - Give up...Dim ges.
Wendy - Cweir! That's the one!
Dic - Cweir...? Be sy mor weird am cweir?
Wendy - Swno fel mwy na un car i fi! Cweir. Sgiws mi, lad – allet ti rhoi tri galwyn o unleaded petrol yn y cweir 'ma! A cweir – rial cweir hefyd - gei di os ti ddim yn bihafio – reit, Doctor Smart Alec?
Dic - Oi! Beth ti'n wneud? Ôn i'n gwrando ar hwnna...

Golygfa 2

Wendy - Sut mae dy goes di erbyn hyn?
Dic - Pa un?
Wendy - Ti'n O.K.?
Dic - Jyst abowt...
Wendy - Odd hynny'n beth doji i wneud, ti'n meddwl?
Dic - Beth? Caru?

Wendy - Ie. And in that position as well...? A ti a dy fractured leg a chwbwl...

Dic - Odd. Ti'n nyts, Wend. Ond joies i...

Wendy - Gwd. Service with a smile. Hei! Edrycha faint o'r gloch ydy hi. Well i fi fynd.

Dic - Ddim eto...

Wendy - Ie. Dw i ddim isie bollocking arall gan Sister Agnes Rees, no way...

Dic - Ti wedi gweld Dr Jenny Saunders o gwmpas y wards?

Wendy - Na. Mae hi'n dal i ffwrdd o'r gwaith. O hyd? Ac os ti'n gofyn i fi, fe: Arwyn Saunders: ei gŵr hi sy ar fai. Git. A paid â dechrau siarad amdanat ti a fi yn helpu hi mas o dwll, O.K.?

Dic - Fel ddwedais i wrthot ti neithwr, wy'n timlo mor euog...

Wendy - Pam? Jyst iddo fe Arwyn dy ladd di.

Dic - Ond ôn i'n feddw gaib...

Wendy - Roedd bai arno fe hefyd, Dic. Doedd Arwyn ddim yn edrych i ble roedd e'n mynd.

Dic - Ond ddim fe sy'n cael ei gosbi. Ond hi. Ei wraig e. Jenny. Dyna'r pwynt. Hi fydd yn y llys. Mae'r peth yn 'rong. Pam allwn ni ddim jyst anghofio'r peth?

Wendy - Anghofio'r peth? Sut? Wy wedi gwneud statement. Wy wedi dweud y gwir...O.K.? Ond dim y musnes i yw bod yn rhan o'u celwyddau nhw. Pam ddylwn i dynnu'n statement i nôl?

Dic - Wel, wy wedi dweud wrthot ti sut wy'n teimlo.

Wendy - Paid. Ddylet ti ddim timlo'n euog.

Dic - Ond wy yn teimlo'n euog - O.K.? Alla i ddim helpu'r peth...

Ysbyty Brynaber: Episode 14

Dic has asked whether or not the whole incident should be forgotten and has urged Wendy to think about retracting her statement.

Arwyn Saunders and Agnes Rees are discussing their respective partners.

Geirfa

hast	hurry
sbel (SW)	a while
cwyno	to complain
yn weddol	fairly well
cynnig	offer
rhyfedd	strange
coelcerth	a bonfire
cwpla (SW)	to finish
becso (SW)	to worry
adegau	times
dychmygu	to imagine
cydymdeimlo	to sympathise
sylweddoli	to realise
rhesymol	reasonable

Golygfa 1

Arwyn - ...na, mam...yn y 'sbyty dw i, ie...newydd ga'l cinio jyst nawr...gawsoch chi ginio? Cino, mam...y meals-on-wheels, gan Mrs Jenkins...Gwd...Gaf fi glywed beth gawsoch chi rhywbryd eto, wy ar bach o hast...Na, na – dyw Jenny ddim nôl yn y gwaith eto...Ddim am sbel fach, 'ta beth...Dyw hi ddim yn teimlo'n hwylus...Na, Mam – fe ffonia i chi heno – ond wy'n gorfod mynd nawr...Hwyl.

Agnes - Arwyn – sut ych chi erbyn hyn?

Arwyn - Ar yn ffordd i weld y Registrar dw i.

Agnes - Problem?

Arwyn - Siwr o fod – o nabod Kenneth. Sut mae Brian y dyddiau hyn?

Agnes - Off i Birmingham am y penwythnos. Wel, penwythnos hir...

Arwyn - A beth sy' lan yn Birmingham 'te?

Agnes - Trade Fair.

Arwyn - Beth? Ceir?

Agnes - Beth arall?

Arwyn - Mae Brian yn werthwr ceir da...

Agnes - Mae e'n cwyno digon am y teithio. Dyw e byth gartre...

Arwyn - Gan Brian brynes i'r car sy 'da fi nawr.

Agnes - Ody e'n mynd yn weddol?

Arwyn - Mynd yn grêt – heblaw am ambell i byncjer ar y ffordd nôl o Faes Awyr Manceinion...a wel – pethau eraill sy'n digwydd 'da ceir – fel damweiniau...

Agnes - Shwt ma' Jenny erbyn hyn?

Arwyn - Yn byw ar 'i nerfau.

Agnes - Druan ohoni.

Arwyn - Ac mae hi'n aros yn y tŷ drwy'r dydd bob dydd. I beth? Wy wedi dweud wrthi y byddai hi'n lot gwell iddi fod nôl fan hyn yn gwithio.

Agnes - Wrth gwrs.

Arwyn - Cadw'r meddwl yn brysur...

Agnes - Rhaid bod y cyfan yn pwyso'n drwm iawn arni...

Arwyn - Ydy. Mae e...

Agnes - Alla i wneud rhywbeth i helpu?

Arwyn - Na...

Agnes - Licech chi i fi alw heibo?

Arwyn - Diolch am y cynnig...ond...

Agnes - Ond beth?

Arwyn - Yn anffodus, 'sdim lot all neb weud i helpu. A wy'n teimlo'n ofnadw - fi o'dd i fod i yrru, ond rôn i wedi blino...

Agnes - Dyw Brian ddim yn 'y nhrysto i. Wy'n cofio pan yrron ni lawr i Avignon unwaith. Fe yrodd bob cam o'r ffordd...

Arwyn - Wy'n cico'n hunan – dylwn i fod wedi gyrru nôl o Manceinion...

Agnes - Ond fel 'na mae hi...

Arwyn - Ie. Ac fel wy wedi dweud wrthi dro ar ôl tro – mae damweiniau yn digwydd.'

Agnes - Ydyn, yn anffodus...

Golygfa 2

Agnes – Well Well!

Jenny - Agnes.

Agnes - Dyna beth rhyfedd.

Jenny - Rhyfedd – beth?

Agnes - Cwrdd â ti fan hyn nawr – a finne wedi bod yn siarad amdanot ti prynhawn ddo'...

Jenny - Siarad amdana i - hefo pwy?

Agnes - Paid beco. Dim ond gyda Arwyn...Lan yn y 'sbyty. Newydd gwplu'n shifft ydw i. Ac eisiau gwneud ychydig bach o siopa cyn codi Rhodri a Beca o'r ysgol...

Jenny - Be ti'n brynu?

Agnes - Tân gwyllt. Ar gyfer noson Guto Ffowc. Maen nhw'n rhad yma. Bargen a dweud y gwir.

A mae Rhodri a Beca yn dwli sut gymaint...

Jenny - Be 'dach chi'n wneud? Cael coelcerth yn yr ardd?

Agnes - Ie. Mae Brian wedi bod yn adeiladu coelcerth ers dechrau'r mis...Hen focus a choed a phob mathau o bethau....

Jenny - A sut mae Brian?

Agnes - Fel y boi...

Jenny - Dwi ddim wedi ei weld o ers amser...

Agnes - Pam na ddoi di ag Arwyn draw i ddathlu Noson Guto Ffowc gyda ni?

Jenny - Na, na...

Agnes - Ie, ie. Pam lai?

Jenny - Rhywbeth i chi ydi o...Rhywbeth teuluol...'Dydach chi ddim eisiau Arwyn a fi o gwmpas...

Agnes - Jenny, wir nawr: byddai Brian a finne wrth ein boddau yn eich gweld chi'n dod i'n tŷ ni...A wy'n siwr byddai'r plant wrth eu boddau hefyd...

Jenny - Wel, mi siarada i hefo Arwyn gynta...

Agnes - Na, na. Wy ddim yn mynd i dderbyn 'Na' fel ateb. Dwed y doi di nawr.

Jenny - lawn 'ta.

Agnes - Gwd....Wthnos i nos Fawrth nesa'...

Jenny - lawn. Well i fi orffen fy siopa hefyd...

Agnes - Jenny...Cyn iti fynd...Wy'n gwbod dy fod ti'n beco yn ofnadwy am yr achos llys 'ma ...A wy yn cydymdeimlo...Ond fel ma' gyda fi Brian yn gefn ar adegau drwg...Cofia bod gyda ti Arwyn hefyd...

Jenny – Dw i'n gwbod...

Agnes - Mae cael dau ddyn fel sy gyda ni'n dwy...wel, wy ddim yn credu ein bdo ni'n sylweddoli pa mor lwcus ydyn ni...Nid fy lle i yw gweud dim: ond ydy hi'n bosib setlo'r mater 'ma cyn iddo fe fynd i'r llys? Ti a Dr Richard Allen yn bobol hollol resymol...

Jenny - Ma'r mater bellach allan o'n dwylo ni...

Agnes - Pam na ei di draw i'w weld e? A cael "chat" bach...Wy'n siwr allwch chi'ch dau sorto rhywbeth mas...

Jenny - Mmmm. Falle...

Ysbyty Brynaber: Episode 15

Agnes has suggested to Jenny that she should go and have a chat to Dr Allen to see if there is any way that the matter relating to the accident could be resolved without going to court.

Jenny plucks up enough courage to go over to Dic's flat.

Geirfa

eiliad	a second
braidd yn anniben (SW)	a little untidy
pwysau	weight
poeni	to worry
osgoi	to avoid
dychmygu	to imagine
rheswm	reason
amddiffyn	to defend

Golygfa 1

Dic - ...Pwy sy' 'na nawr 'to? Ie?

Jenny - Richard...Sori. Fi. Jenny Saunders sy 'ma. Alla i ddod i fewn am eiliad?

Dic - Yyyy...ie...O.K....

Jenny - Chi'n siwr bod hynny'n iawn?

Dic - Ydy, Ydy...Jyst fod y lle 'ma braidd yn anniben...

Jenny - Fydda i ddim yn hir...

Dic - Fi yw'r fflat dop...Y drws gwyrdd ar ben y grisiau...Jyst ewch drwy'r drws a bydd drws fy fflat i ar agor...

Jenny - Sori am hyn...

Dic - Mae'n iawn...Dewch i mewn...

Jenny - Diolch.

Dic - Dych chi am eistedd?

Jenny - Gobeithio bod hi'n iawn i fi alw heibio fel hyn..

Dic - Ydy siwr... dw i'n falch o gael cwmni...

Jenny - Sut mae'r goes?

Dic - Dw i'n gallu rhoi pwysau arni yn weddol nawr...

Jenny - Wna i ddim gwastraffu'ch amser chi, Richard...Mi weles i Agnes Rees wrth siopa ddoe...

Dic - Ah-uh...

Jenny - Ie...A wnaeth hi...Wel, wnaeth hi ddweud 'falle dylwn i ddod i'ch gweld chi...i drafod yr achos llys yma...ag i ni gael "chat" bach a trio ffendio ffordd allan o hyn...

Dic - Mmmm-hmmm.....

Jenny - Dw i'n poeni. Dw i'n poeni'n ofnadwy...

Dic - Ie. Wel..Galla i ddychmygu...

Jenny - Dach chi'n meddwl gallwn ni ffendio ffordd o osgoi'r achos, o beidio mynd i'r llys?

Dic - Alla i weud rhywbeth?

Jenny - Wrth gwrs...

Dic - Jyst...Rhywbeth...Jyst fel...wel... Fel bod ni'n deall y'n gilydd?

Jenny - Dyna pam dw i wedi galw...Er mwyn cael sgwrs onest...

Dic - Mae hyn bach yn anodd...Ond wy wedi nal yn y canol rhywsut...A wy'n gwbod taw ddim chi ddylai fod yn y llys 'na - ond Arwyn, eich gŵr chi....Beth sy gyda chi i ddweud am hynny?

Jenny - Na. Fi oedd yn gyrru'r car....

Dic - Nid dyna beth ddwedodd Wendy wrtho i. A nid dyna beth ddwedodd hi wrth y polis chwaith...

Agnes - Fi oedd yn gyrru. Ddim Arwyn.

Dic - Oedd Dr Saunders wedi bod yn yfed? Dyna'r rheswm pam ych chi'n sefyll lan drosto fe?

Jenny - Chi oedd yn feddw. Chi oedd yn ganol y ffordd. Chi achosodd y ddamwain...

Dic - Ond rhaid i chi gyfadde fod bai ar ych gŵr chi hefyd. Dw i ddim yn gweld pam dylech chi gymryd y fflac ar ei ran e...

Jenny - Wel, does gen i ddim dewis...achos fi a ddim fo oedd yn dreifio...

Dic - Sdim rhaid ichi ei amddiffyn e....

Jenny - Dw i ddim yn ei amddiffyn o....

Dic - Ddwedwn i eich bod chi...

Jenny - Na. Achos fi oedd yn dreifio'r car. O.K.?

Synopsis

Jenny Saunders has been feeling the strain of the impending court action after being persuaded by her husband to accept responsibility for striking down Dr Dic Allen. Sister Agnes Rees has persuaded Jenny to visit Dic to try and avoid a court case. Dic, however, has intimated that she shouldn't accept responsibility for what was really her husband's business. Jenny would have none of it. She was adamant that she was at the wheel on that fateful night.

Test yourself

1. Translate 'She's still off work' into Welsh
 - a) **Mae hi'n dal i ffwrdd o'r gwaith**
 - b) Mae hi yn y gwaith
 - c) Mae hi wedi bod yn y gwaith
2. Translate 'I am always late' into Welsh
 - a) Dw i byth yn hwyr
 - b) **Dw i o hyd yn hwyr**
 - c) Dw i'n hwyr bob bore
3. What is the Welsh word for cars?
 - a) cweir
 - b) **ceir**
 - c) cariau
4. What's the word in South Wales for 'to worry'?
 - a) berwi
 - b) bant
 - c) **becso**
5. What's the Welsh verb for 'to sympathize'?
 - a) cydweithio
 - b) **cydymdeimlo**
 - c) cwyno
6. How would you translate the Welsh phrase 'time and again'?
 - a) eto ac eto
 - b) **dro ar ôl tro**
 - c) unwaith eto